POLISI GWEITHIO GYDA PHLANT A PHOBL IFANC

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Tachwedd 2008

CYNNWYS

		Tud
1.0	Datganiad Polisi	3
2.0	Staff priodol	4
3.0	Profiad Gwath	4
4.0	Ymweld ag Ysgolion, Colegau a Chanolfannau Addysg	6
5.0	Arwain Taith / Gwaith Maes	6
6.0	Ymweliad Preswyl	8
7.0	Trafnidiaeth	9
8.0	Cam drin plant a Phobl Ifanc	10
9.0	Côd Ymddygiad	11

Nodyn

1.0 Datganiad Polisi

1.1 Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri am i blant a phobl ifanc fwynhau eu profiad yn Eryri gan ei bod yn bwysig ein bod yn meithrin ymwybyddiaeth a brwdfrydedd am y gwaith a wneir yma. Trwy'r polisi hwn, rydym yn ymrwymo i'r safonau amddiffyn plant uchaf posibl a cymerir y camau priodol i sicrhau iechyd a lles y plant a'r bobl ifanc y ceir cyswllt gyda nhw, gan amlaf, tra maent ar

- brofiad gwaith
- ymweliad i ysgol
- daith / gwaith maes
- gwrs preswyl

Nod y Polisi yw darparu canllawiau eglur a phendant y gall y weithdrefn 'Gweithio gyda phlant a Phobl Ifanc' adeiladu arnynt. Mae'r polisi yn berthnasol i holl staff APCE ddaw i gysylltiad â phlant a phobl ifanc. Trwy weithredu'r polisi gallwn weithio gyda phlant a phobl ifanc yn hyderus gan gymryd y camau priodol i sicrhau na ddaw unrhyw niwed i blant a phobl ifanc a bod camau yn eu lle i ddelio gydag unrhyw ddigwyddiad petai yn digwydd.

1.2 Ystyr "plant a phobl ifanc" i bwrpas y polisi hwn yw pobl o dan 18 mlwydd oed.

1.3 Ystyr "athrawon" i bwrpas y polisi hwn yw oedolion cyfrifol sy'n hebrwng plant ond heb gynnwys staff yr Awdurdod.

1.4 Ystyr 'staff' i bwrpas y polisi hwn yw staff sydd yn gyflogedig neu a gynrychiolir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Caiff yr holl staff wybod am y polisi a'r gweithdrefnau sydd ynddo er mwyn sicrhau eu diogelwch hwy yn ogystal ag amddiffyn plant.

2.0 Staff Priodol

2.1 Mae'r Awdurdod wedi cofrestru gyda'r Biwro Cofnodion Troseddol. Bydd yn defnyddio hyn i gynnal archwiliadau ar staff cyfredol a staff newydd sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc neu sy'n cael mynediad neu'n debygol o gael mynediad at blant a phobl ifanc yng nghwrs eu gwaith. Gwneir hyn cyn dechrau eu gwaith neu eu lleoliad. Bydd lefel y datgeliad y gwneir cais amdano yn unol â'r canllawiau a ddarperir gan y Biwro Cofnodion Troseddol ar gyfer pob swydd neilltuol.

2.2 Bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio'n llwyr â'r ddeddfwriaeth newydd (2009) sy'n cael ei reoli gan yr Independent Safeguarding Authority mewn perthynas â chofrestru staff sydd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

2.3 Pan fo aelod o staff neu ddarpar aelod o staff yn cael ei gyflogi neu'n mynd i gael ei gyflogi mewn Swydd Reoledig fel y'i diffinnir gan Adran 36 o Ddeddf Gwasanaethau Llys a Chyfiawnder Troseddol 2000, yna bydd yr Awdurdod yn mynnu bod yr aelod staff yn cydymffurfio â gofyniad datgelu uwch. Os yw aelod o staff yn gwrthod cydymffurfio gyda'r fath ofyniad yna ni fydd ef/hi yn cael ei gyflogi/chyflogi neu ni chaniateir iddo ef hi barhau i weithio mewn Swydd Reoledig.

3.0 Profiad Gwaith

Mae'r Awdurdod yn croesawu ieuenctid o ysgolion/colegau/canolfannau lleol ar leoliadau profiad gwaith gyda'r Awdurdod i ddysgu am gyfleoedd gwaith ac i ddod yn ymwybodol o effaith gwaith yr Awdurdod ar amgylchedd y Parc Cenedlaethol. Cymerir y camau angenrheidiol yn ystod yr amser hynny i ddiogelu'r plant/pobl ifanc ac, yn ogystal, staff Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

3.1 Gan blant a phobl ifanc o ysgolion/colegau a chanolfannau a restrir fel rhai "lleol" (o fewn neu'n agos at ffin y Parc Cenedlaethol) yn unig y bydd yr Awdurdod yn fodlon derbyn lleoliadau profiad gwaith.

3.2 Hysbysir ysgolion/colegau/canolfannau sy'n gwneud cais am leoliad profiad gwaith, am gynnwys y polisi hwn a disgwylir iddynt gydymddwyn ag ef er mwyn sicrhau y cedwir at y polisi. Cydweithredir gyda'r ysgolion/colegau/canolfannau lleol i geisio sicrhau lleoliadau yn ystod eu hwythnos profiad gwaith.

3.3 Yr Adran Weinyddu fydd yn prosesu'r holl leoliadau profiad gwaith. Ni chaniateir i unigolyn drefnu lleoliad profiad gwaith heb ddilyn canllawiau'r gwasanaeth.

3.4 Bydd plant a phobl ifanc sydd yn gwneud cais am leoliad yn derbyn ffurflen 'Profiad Gwaith' yr Awdurdod fydd angen ei llenwi a'i dychwelyd yn brydlon fel cais am leoliad. Gofynnir am fanylion unigolion, y pynciau astudir, diddordebau, rhifau cyswllt ysgol/coleg/canolfan a chartref ac am unrhyw broblemau iechyd/meddygol sydd gan y plentyn/person ifanc all gael effaith ar eu lleoli. Ni ddatgelir manylion personol yr ieuenctid y tu hwnt i'r gwasanaeth personél/gweinyddol oni bai fod rhesymau iechyd a diogelwch dros wneud. Blaenoriaethir lleoliadau yn ddibynnol ar ddyddiad cyflwyno cais.

3.5 Bydd plamt a phobl ifanc sydd yn cael eu derbyn ar brofiad gwaith yn derbyn llythyr cadarnhad fydd yn nodi lleoliad eu profiad gwaith, man cyfarfod y diwrnod cyntaf, amser cychwyn/gorffen, dillad addas i'r gwaith a threfniadau cinio.

3.6 Bydd aelodau staff sy'n ymgymryd â goruchwylio lleoliadau gwaith yn derbyn hyfforddiant ac arweiniad ar weithio yn ddiogel gyda phlant a phobl ifanc cyn i'r lleoliad ddigwydd. Bydd hyn yn cynnwys asesu risg ymweliadau safle, trefniadau cludiant a threfniadau argyfwng.

3.7 Pan fydd y plant/pobl ifanc yn cyrraedd eu lleoliad bydd y weithdrefn frys yn cael ei egluro iddynt. Bydd hyn yn cynnwys gweithdrefn o fewn adeiladau ynghyd a beth i'w wneud mewn argyfwng allan yn y maes. Eglurir hefyd beth yw'r drefn petaent yn sâl ac yn methu mynychu diwrnodau neu yn cael eu taro yn wael yn ystod y dydd.

3.8 Gwneir pob ymdrech i leoli plant a phobl ifanc yn unol â'u dyheadau. Gall y lleoliad yma newid o ddydd i ddydd er mwyn rhoi profiad gwaith eang iddynt.

3.9 Bydd un ai rhieni'r plentyn/person ifanc neu'r ysgol/coleg/canolfan yn gyfrifol am wneud yn siŵr fod y plentyn/person ifanc yn cyrraedd y lleoliad a benodwyd yn y bore ac yn dod i'w nôl ar ddiwedd y diwrnod gwaith i fan fydd wedi glustnodi ymlaen llaw.

3.10 Ni ddylai unrhyw aelod o staff APCE fod yn gwbl gyfrifol am blentyn neu berson ifanc ar leoliad. Os yw'n ymarferol gwneud hynny, dylai dau aelod o staff fod yn bresennol gyda'r plentyn/person ifanc bob amser. Os bydd staff yn mynd allan o'r swyddfa ar leoliad gyda phlentyn neu berson ifanc, byddent yn hysbysu'r swyddfa am ble

byddent yn mynd, dull cludiant a phryd y byddent yn ôl. Bydd asesiad risg o'r gwaith/lleoliad wedi ei wneud ymlaen llaw a bydd copi wedi ei adael mewn man canolog.

3.11 Ni fydd plant a phobl ifanc yn cael eu cludo i'r lleoliad gwaith nac oddi yno gan aelod o staff oni bai fod y sawl sy'n gweinyddu lleoliadau profiad gwaith

a) yn ymwybodol o'r trefniant
b) yn sicr fod yr aelod o staff wedi derbyn archwiliad CRB.
c) yn sicr fod caniatâd rhieni/gwarchodwyr wedi ei roi o ymlaen llaw.

4.0 Ymweld ag Ysgolion a Chanolfannau Addysg

4.1 Bydd aelodau'r staff ac yn arbennig Swyddogion Addysg yn mynychu ysgolion/colegau/canolfannau o fewn y Parc i hysbysu ac addysgu disgyblion (plant / pobl ifanc) am waith yr Awdurdod. Bydd y staff yn dilyn trefn ymweld yr ysgol/coleg/canolfan.

4.2 Bydd yr aelod staff yn rhoi gwybod i'r Pennaeth y dirprwy neu athro/athrawes priodol ei fod/bod wedi cyrraedd ac yn cydymffurfio'n llwyr gyda gweithdrefnau'r ysgol/coleg/canolfan ar ymddygiad a disgyblaeth. Dylai athro fod yn bresennol gyda'r swyddog bob amser a'r athro fydd yn gyfrifol am y plant/pobl ifanc ac am bob mater yn ymwneud â disgyblu'r plant/pobl ifanc.

4.3 Mae staff APCE yn trefnu ac yn mynychu nifer o ddigwyddiadau ac arddangosiadau sy'n apelgar i balnt a phobl ifanc. Er bod y gweithgareddau hyn gan amlaf mewn fforwm gyhoeddus, dylai'r staff fod yn ymwybodol o ddiogelwch a lles y plant/pobl ifanc gan sicrhau'r lefel priodol o oruchwyliaeth a'r nifer priodol o staff.

5.0 Arwain Taith / Gwaith Maes

Fel rhan o'u gwaith bydd rhai o aelodau staff yr Awdurdod yn arwain grwpiau o blant/pobl ifanc ar daith / gwaith maes. Mae'r rhain yn rhoi profiad sy'n rhan o'r addysg amgylcheddol a gynigir sy'n hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad o nodweddion arbennig yr ardal. Rhaid i staff roi blaenoriaeth i les a diogelwch y grŵp wrth eu harwain.

5.1 Rhaid i staff yr Awdurdod fydd yn arwain ymweliadau gwaith maes gyda phlant a phobl ifanc fod wedi cael hyfforddiant mewn gweithdrefnau asesu risg a byddant yn cydymffurfio gyda'r gweithdrefnau hynny. Bydd y staff yn asesu risg y daith/gwaith maes ymlaen llaw trwy ymweld â'r safle / cerdded y llwybr. Bydd copi o'r

asesiad risg yn cael ei anfon i'r ysgol/coleg/canolfan. Bydd staff yn dilyn gweithdrefn ymweliad yr ysgol/coleg/canolfan a chanllawiau'r sir ar arwain taith.

5.2 Bydd gan staff sy'n arwain taith / gwaith maes brofiad blaenorol o gynnal y fath weithgareddau ynghyd a lefel ddigonol o hyfforddiant. Bydd pob swyddog a fydd yn arwain ymweliad gwaith maes wedi ei gymhwyso i roi Cymorth Cyntaf.

5.3 Nid yw'r Awdurdod yn ymgymryd â gweithgareddau y mae'n ofynnol eu trwyddedu o dan ddarpariaethau Deddf Canolfannau Gweithgareddau (Diogelwch Pobl Ifanc) 1995 (Rheoliadau Trwyddedu Gweithgareddau Antur 1996) (Gweler Atodiad 1). Pan ofynnir i'r Awdurdod roi cymorth i grwpiau sy'n cynnal gweithgareddau y mae angen trwydded felly ar eu cyfer, ni fydd yn gwneud hynny onid yw'n fodlon, er gwaetha'r ffaith fod staff yr Awdurdod yn bresennol, fod y gweithgaredd wedi ei drwyddedu a bod y trefniadau ar gyfer y gweithgaredd, ac i'w oruchwylio, yn cydymffurfio'n llawn â gofyniad y drwydded.

5.4 Cyn yr ymweliad, bydd staff yn rhoi gwybod i grwpiau ysgolion/colegau/canolfannau pa safon offer a dillad fydd eu hangen arnynt. Yr athrawon fydd yn gyfrifol am ofalu fod gan y plant/pobl ifanc ddillad ac offer addas ar y dechrau. Bydd y staff yn cynnal archwiliad terfynol cyn cychwyn y daith / gwaith maes ac os nad oes offer addas gan blentyn neu'r person ifanc, a dim offer arall ar gael, yna ni fydd ef/hi yn cael mynd.

5.5 Bydd staff sy'n arwain taith / gwaith maes yn gadael map yn dangos y llwybr a'r daith mewn man canolog gan hysbysu eraill o'u bwriad a bydd copi wedi ei anfon i'r ysgol/coleg/canolfan fel rhan o'r asesiad risg. Bydd staff yn cario sach gefn yn cynnwys pecyn cymorth cyntaf, ffôn symudol, chwiban plastig, sach oerfel, cwmpawd, map AO o'r safle a thortsh.

5.6 Bydd staff yn gofalu fod lefel goruchwyliaeth a chymhareb staff yr Awdurdod / athrawon a disgyblion y grŵp sy'n ymweld ag unrhyw le yn ddigonol, fel y dangosir isod.

OED	CYMHAREB
o dan 8 oed	2 oedolyn i 12 o blant/person ifanc, ac o hynny ymlaen 1 oedolyn i bob 8 plentyn/person ifanc ychwanegol
o dan 12 oed	2 oedolyn i 15 o blant/person ifanc, ac o hynny ymlaen 1 oedolyn i bob 10 plentyn/person ifanc ychwanegol

dros 12 oed	1 oedolyn i 10 o bobl ifanc.

5.7 Cyfrifoldeb yr athro / athrawes mewn gofal fydd disgyblu'r plant/pobl ifanc os oes angen yn ystod unrhyw ymweliad gwaith maes. Bydd staff yr Awdurdod yn rhoi gwybod i'r athro / athrawes os gwêl unrhyw ymddygiad allai beri niwed gan blentyn/person ifanc iddo'i hun neu eraill yn y grŵp. Yr athro / athrawes fydd mewn 'in loco parentis'. Bydd staff yn rhoi cyngor ynglŷn ag ymddygiad gydol yr ymweliad gwaith maes, ac os bydd y staff sy'n arwain yn barnu ar unrhyw adeg, ac am ba reswm bynnag, na fyddai'n briodol bwrw ymlaen, yna bydd ef neu hi'n dod â'r ymweliad gwaith maes i ben.

6.0 Ymweliad Preswyl

6.1 Bydd staff Plas Tan y Bwlch wedi derbyn hyfforddiant penodol yn ymwneud â gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Bydd yr hyfforddiant hwn yn tynnu sylw at faterion gweithio gyda phlant a phobl ifanc, y ddeddfwriaeth a sut mae'n effeithio ar waith yr unigolyn a'r ganolfan. Bydd unrhyw aelodau staff eraill sy'n cydweithio gyda staff y Plas, neu yn eu lle, a'r rheini sy'n gweithio ar ddyletswydd nos hefyd yn derbyn yr hyfforddiant priodol ar gyfer gweithio gyda phlant. Bydd staff sydd ar ddyletswydd dros nos hefyd wedi ennill cymhwyster cymorth cyntaf.

6.2 Cyfrifoldeb yr athro / athrawes mewn gofal fydd disgyblu'r plant os oes angen yn ystod unrhyw ymweliad, yn enwedig yn ystod cyfnodau 'rhydd' . Bydd staff yr Awdurdod yn rhoi gwybod i'r athro / athrawes os gwêl unrhyw ymddygiad allai beri niwed gan blentyn/person ifanc iddo'i hun neu eraill yn y grŵp. Yr athro/athrawes fydd mewn 'in loco parentis'.

6.3 Bydd pob ysgol/coleg/canolfan yn gyfrifol am ddarparu'r nifer angenrheidiol o staff i sicrhau y cedwir cymarebau staff/disgyblion digonol yn unol â'r canllawiau yn ystod arhosiad dros nos.

6.4 Ni chaniateir i unrhyw aelod o staff fynd i mewn i ystafelloedd y plant/person ifanc heb fod athro/athrawes yn bresennol pan fydd y plant/pobl ifanc ynddynt. Bydd eithriad i hyn pan fo argyfwng yn digwydd sy'n mynnu sylw ar unwaith a gweithredir y Gweithdrefnau Argyfwng perthnasol.

6.5 Pan fydd cyrsiau oedolion yn cael eu cynnal yn gyfochrog gyda chyrsiau plant/pobl ifanc bydd y plant yn cael eu lletya mewn ystafelloedd na fydd oedolion sy'n mynychu cyrsiau ac yn aros yn y Plas, ac eithrio athrawon, yn gallu mynd iddynt.

6.6 Anfonir copi o'r Polisi Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc a gweithdrefnau tŷ Plas Tan y Bwlch i'r ysgol/coleg/canolfan gyda'r cadarnhad archebu lle er mwyn rhoi gwybod i benaethiaid ac athrawon am y weithdrefn sydd yn eu lle parthed staff yr Awdurdod yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

6.7 Ni fydd plant a phobl ifanc yn gallu cael mynediad at adnoddau'r rhyngrwyd ym Mhlas Tan y Bwlch oni bai fod athro / athrawes yn eu goruchwylio.

7.0 Trafnidiaeth

7.1 Os cynigir trafnidiaeth i gludo plant a phobl ifanc gan yr Awdurdod ym mysiau mini'r Awdurdod, bydd staff yr Awdurdod yn

- gofalu fod bysiau mini yn cael eu cynnal a'u cadw ac yn cael gwasanaeth rheolaidd, a bod gyrrwr y bws mini yn sicrhau fod y cerbyd mewn cyflwr diogel cyn cychwyn; mae hyn yn cynnwys bwrw golwg dros y goleuadau, y brêcs, dŵr ac olew, gwydr a theiars a gofalu fod pecyn Cymorth Cyntaf a Diffoddydd Tân yn y cerbyd.

- Sicrhau fod gan yrrwr y bws mini drwydded yrru ddilys, gyfredol ar gyfer y math hwn o gerbyd a'u bod yn gwneud yn siŵr fod gwregysau sedd yn cael eu defnyddio bob amser.

- Sicrhau na adewir plant a phobl ifanc yn y cerbyd heb eu goruchwylio a dylid pacio eiddo personol neu offer yn ddiogel fel nad ydynt yn blocio unrhyw ddrws neu le cerdded.

- Sicrhau fod yna ail athro / athrawes neu oedolyn arall ar y bws.

7.2 Ni fydd plant/pobl ifanc yn cael eu cludo gan aelod o staff heb ganiatâd yr ysgol/coleg/canolfan/rhiant ymlaen llaw a bydd y staff wedi eu cofrestru gyda Biwro Cofnodion Troseddol.

7.3 Dim ond os gellir gwneud yn siŵr eu bod yn gyfforddus ac yn ddiogel y caniateir cludo plant / pobl ifanc yng ngherbydau'r Awdurdod.

Os cludir plant/pobl ifanc mewn cerbydau eraill sydd yn eiddo i'r Awdurdod neu yng ngherbyd personol gweithiwr rhaid i'r pletnyn/person ifanc wisgo gwregys sedd yn unol â deddf gwlad.

8.0 Cam-drin plant a Phobl Ifanc

8.1 Gwneir pob ymgais gan yr Awdurdod i sicrhau na fydd plant / pobl ifanc yn cael eu gadael mewn sefyllfa ble y gallai cam-drin gan staff gymryd lle. Er mai prif ffocws y Polisi gweithio gyda Plant a Phobl Ifanc yw gwarchod plant a phobl ifanc fydd yn ein gofal, rhaid i ni hefyd fod yn ymwybodol fod honiadau o drais yn cael eu gwneud gan blant a phobl ifanc am oedolion. Gall yr honiadau hyn godi trwy gamgymeriad neu gallent fod yn rai maleisus. Trwy weithredu'r polisi yma nod APCE yw sicrhau gweithdrefn glir ble na fydd siawns i honiadau o'r fath gael eu gwneud.

8.2 Os gwneir honiad yn eich erbyn chi fel aelod o staff gan blentyn neu berson ifanc, dylid hysbysu adran personél cyn gynted a phosibl. Caiff unrhyw fater eu trin yn gyfrinachol. Argymhellir y dylai aelodau o undeb gysylltu â'u cynrychiolwyr. Bydd yr Awdurdod yn cyfeirio'r mater i'r Gwasanaethau Cymdeithasol lleol fyddai yn ymchwilio i'r honiad. Bydd unrhyw ymchwiliad yn cael ei wneud gyda chydweithrediad llwyr APCE. Bydd Gweithdrefn Disgyblu fewnol yr Awdurdod hefyd yn cael eu cychwyn. Tra bod yr honiadau yn cael eu hymchwilio, bydd yr aelod o staff yn cael eu symud i safle o fewn yr Awdurdod ble na fydd cyswllt ganddynt gyda phlant/person ifanc.

8.3 Os oes plentyn/person ifanc yn honni ei f/bod yn cael ei cam-drin, neu os ydych chi yn amau fod plentyn/person ifanc yn cael ei cam-drin, dylech ddatgan y mater gyda'r Adran Bersonél gan fynegi eich pryderon. Byddent hwythau wedyn yn rhoi arweiniad pellach ar y mater.

9.0 Cod Ymddygiad Staff

- Dylech gymryd yr holl gamau priodol i sicrhau lles a iechyd plant a phobl ifanc sydd yn dod i gyswllt â staff APCE.

- Ystyriwch anghenion y plant/pobl ifanc fel rhai oedolion. Peidiwch â'u gorfodi i wneud tasg / taith os nad ydynt yn fodlon.

- Dylech atal unrhyw aelod arall o staff rhag rhoi plentyn neu berson ifanc mewn sefyllfa lle gall risg o anaf ddigwydd.

- Er eich lles chi a'r plentyn, peidiwch â rhoi eich hun mewn sefyllfa ble byddwch ar ben eich hun gyda phlentyn.

Nodyn

Beth sydd angen i'r Awdurdod ei wneud i sicrhau y gwireddir y Polisi hwn?

- Sicrhau fod pob aelod o staff yn derbyn copi i'w ddarllen.

- Datblygu canllawiau neu ddogfennau ymarferol law yn llaw â'r polisi hwn, yn datgan yn glir sut y bydd yr Adran berthnasol yn gweithredu ar sefyllfaoedd penodol.

- Cynnig hyfforddiant mewn asesu risg safleoedd, trefniadau cludiant a threfniadau argyfwng i'r rhai fydd yn debygol o weithio gyda phlant a phobl ifanc.

- Cynnal gweithdrefn sy'n sicrhau nad oes unrhyw aelod o staff yn cael eu gadael mewn unrhyw sefyllfa ble y gallai plant a phobl ifanc wneud honiadau yn eu herbyn.